Cyflwyniad i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol gan Weithgor Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru) ar Gymru ac Ewrop.

1. Gwneir y cyflwyniad hwn gan Weithgor Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru) a sefydlwyd yn dilyn penderfyniad gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, sy'n gyfrifol am gynnull y Gweithgor. Dymuniad cynrychiolwyr yr enwadau a'r mudiadau sy'n aelodau o Cytûn yw cyflwyno persbectif Cristnogol ar y pynciau creiddiol y dylid rhoi sylw iddynt oddi fewn i Gymru ac yn y DG yn dilyn y refferendwm ar aelodaeth y DG yn yr Undeb Ewropeaidd (UE).
2. Mae aelod eglwysi Cytûn yn cynnwys rhyw 172,000 o aelodau mewn oed mewn eglwysi o 14 gwahanol draddodiad yn addoli a gwasanaethu trwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg a nifer o ieithoedd eraill ymhob cymuned yng Nghymru. Mae ganddynt hwy a'r mudiadau sy'n aelodau gysylltiad â miloedd yn rhagor o blant, pobl ifainc ac oedolion ar draws Cymru. Gellir gweld rhestr lawn o aelodau Cytûn yma:
3. Y mae'r cyflwyniad hwn yn annog Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru, a Senedd San Steffan a Llywodraeth Ei Mawrhydi fel ei gilydd i ffocysu ar ddau faes o gonsyrn i'r Eglwysi: yn gyntaf, perthynas y DG â chenhedloedd a gwladwriaethau Ewropeaidd yn dilyn Brexit ac, yn ail, mynegi persbectif Cristnogol ar faterion allweddol y dylid rhoi sylw iddynt wrth fynd ati i adeiladu cymdeithas yn y DG ac yng Nghymru yn ystod ac yn dilyn y trafodaethau tuag at Brexit. Mae'r cyflwyniad yn clustnodi pump maes polisi i'w hystyried:
   - Hawliau a chyfleoedd
   - Cymunedau lleiafrifol
   - Amaethyddiaeth a'r amgylchedd
   - Perthynas â chenhedloedd a gwladwriaethau eraill
   - Y broses ddemocrataidd

Beth ddylai fod yn brif flaenoriaeth i Gymru cyn i Lywodraeth y DU weithredu Erthygl 50 (sy'n cychwyn y broses ffurfiol o adael yr UE)?

4. Cyn dechrau'r trafodaethau swyddogol ffurfiol dan Erthygl 50, credwn y dylai llywodraethau etholedig y DG geisio cytundeb ar amcanion sylfaenol y trafodaethau. Y canlynol yw'n hawgrym ni am ddatganiad o'r amcanion hyn. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill fod yn rhan o'r trafodaethau yn dilyn rhoi cychwyn ar Erthygl 50. Yn y broses hon, ni ddylid colli golwg ar bwysigrwydd cyfreithiau Ewropeaidd fel sail agweddau deddfwriaethol datganoli.

5. **Perthynas â gwladwriaethau a chenhedloedd Ewropeaidd yn dilyn Brexit**
   Â'r DG wedi penderfynu gadael yr UE, cred eglwysi Cymru mai'r cwestiwn cyntaf i'w ystyried yw: pa fath ar berthynas ag Ewrop yr ydym ni fel Cymry yn ei cheisio? Nid yw pleidlais y refferendwm yn golygu ein bod yn peidio â bod yn drigolion cyfandir Ewrop nac yn aelodau o'r teulu Ewropeaidd.
6. Credwn y dylai Llywodraeth Ei Mawrhydi (EM) a Llywodraeth Cymru geisio perthynas ag Ewrop sy'n parhau i ystyried Ewrop fel '*ein cartref cyffredin, sy'n adeiladu ar y gorffennol ac yn edrych tua'r dyfodol gyda gobaith newydd'*. Dylai llywodraethau ac Eglwysi yn Ewrop weithio gyda'i gilydd 'i gynyddu ymdrechion i wneud rhinweddau Cristnogol megis parch tuag at eraill, cydlyniad, gwasanaethu'n gilydd ac adeiladu cymuned yn fwy gweladwy yn y bywyd cyhoeddus'.[1] Credwn na ddylid bod cyfaddawd parthed yr egwyddorion hyn, yn arbennig felly yn wyneb y casineb, gelyniaeth a rhyfela a nodweddodd hanes Ewrop yn y ganrif ddiwethaf. Felly, credwn y dylai'r trafodaethau sicrhau fod sofraniaeth gwladwriaethau a chyd-ddibyniaeth pobloedd a chenhedloedd yn cael pwyslais cydradd fel egwyddorion i'w cynnal a'u cydbwyso.
7. Yn ei hystyriaeth o'n '*cartref Ewropeaidd cyffredin'* cyfeiriodd Cymanfa Basel o Gynhadledd Eglwysi Ewrop ym 1989[2] at egwyddorion y dylid, fe gredwn, barhau i fod yn greiddiol i'n perthynas â'n gilydd yn Ewrop:
   7.1. Cydraddoldeb pawb sy'n byw yn Ewrop, p'un ai ydynt yn gryf neu'n wan;
   7.2. Cydnabod gwerthoedd megis rhyddid, cyfiawnder, goddefgarwch, cydlyniad, cyfranogiad;

[1] Cynhadledd Eglwysi Ewrop, Llythyr i'r Eglwysi, Mehefin 2016
[2] Datganiad Cymanfa Ecwmenaidd Ewrop, Basel, 1989

7.3. Agwedd gadarnhaol tuag at ddeiliaid crefyddau, diwylliannau a byd olygon gwahanol;
7.4. Hyrwyddo deialog yn hytrach na syrthio'n ôl ar ddatrys gwrthdrawiadau trwy drais.

8. **Meysydd polisi allweddol i'w hystyried**

Wrth gymhwyso'r egwyddorion cyffredinol hyn i'n cydberthynas yn Ewrop a'n blaenoriaethau cenedlaethol yn y dyfodol credwn y dylid ystyried nifer o feysydd polisi allweddol:

9. **Hawliau a chyfleoedd**

9.1. Cynnig sicrwydd buan i ddinasyddion yr UE sydd â'u statws yn ansicr ar hyn o bryd.
9.2. Diogelu statws a hawliau pobl fregus ac anabl, yr henoed a phlant.
9.3. Sicrhau fod gan bobl ifanc gyfleoedd addysgol a chyflogaeth priodol yn ystod y cyfnod o ansicrwydd economaidd cynyddol sydd o'n blaen, gan gynnwys parhau i gyfranogi mewn rhaglenni megis *Horizon 2020.*
9.4. Bod yn groesawgar tuag at y bobl ddieithr a thlawd yn ein plith, gan gynnwys parhau i gyfranogi yn rhaglenni'r UE a rhaglenni ar draws Ewrop i ailsefydlu ffoaduriaid.
9.5. Diogelu hawliau unigolion a gweithwyr, gan sicrhau bod hawliau sydd wedi eu gwarantu gan yr UE wedi eu cynnwys yng nghyfraith y DG/y gyfraith Gymreig.

10. **Cymunedau lleiafrifol**

10.1. Dylai Llywodraeth EM a Llywodraeth Cymru barhau i ddiogelu hawliau cymunedau lleiafrifol, yn arbennig y rheini sy'n teimlo dan fygythiad o ganlyniad i droseddau casineb a chamdriniaeth.
10.2. Dylai'r ddwy lywodraeth warantu, drwy ddeddfwriaeth briodol a chyllid digonol, fod ieithoedd lleiafrifol megis, ond nid yn unig, y Gymraeg, yn cael eu meithrin a'u hyrwyddo. Gan y bydd y Gymraeg yn colli ei statws cyd-swyddogol ar lefel yr UE pan fyddwn yn gadael yr UE, credwn y dylid sicrhau statws gyffelyb i'r Gymraeg (a Gaeleg yr Alban a Gaeleg Iwerddon) ar lefel y DG.

11. **Amaethyddiaeth a'r amgylchedd**

11.1. Credwn y dylid, naill ai drwy barhau aelodaeth o'r EEA neu/a EFTA neu drwy eu hymgorffori yn neddfwriaeth y DG a Chymru, warchod polisïau a chyllid a anelir at ddiogelu'r amgylchedd, delio â newid hinsawdd a gwrthweithio'u heffeithiau ar fioamrywiaeth.
11.2. Rydym yn cydnabod fod yr ansicrwydd presennol yn heriol i amaethyddiaeth yng Nghymru. Felly, anogwn y ddwy lywodraeth i sicrhau trosglwyddiad o'r Rhaglen Amaethyddol Gyffredin (CAP) na fydd yn fygythiad i ddyfodol bywoliaethau amaethyddol, yn arbennig felly mewn ffermydd teuluol bychain a chanolig (yn cynnwys ffermydd mynyddig), sy'n hanfodol i economi a diwylliant y Gymru wledig.

12. **Perthynas â chenhedloedd a gwladwriaethau eraill**

12.1. Fel sail hanfodol i berthynas â gwledydd oddi fewn a thu allan i gyfandir Ewrop, mae angen inni sicrhau fod bod yn gymdogion da i wledydd eraill yn agwedd allweddol o'n polisi ym meysydd cyllid, yr economi, datblygiad rhyngwladol a pholisi tramor.

13. **Y broses ddemocrataidd**

13.1. Codwyd gan y refferendwm ar aelodaeth y DG yn yr UE ddau fater cysylltiedig parthed dyfodol democratiaeth yn y cenhedloedd hyn ac, yn fwyaf arbennig i ni, yng Nghymru:
13.1.1. y gwahaniaethau dyfnion a ddatgelwyd gan y canlyniad rhwng sectorau gwahanol o'r gymdeithas ac ardaloedd daearyddol gwahanol;
13.1.2. agweddau o'n diwylliant a'n prosesau gwleidyddol, a sut mae cynnwys y boblogaeth gyfan oddi fewn i'n gwleidyddiaeth (hynny yw, mynd i'r afael â'r hyn a elwir yn ddiffyg democrataidd).

14. Rydym yn y broses o wahodd arbenigwyr yn y meysydd uchod i ysgrifennu papurau cyfarwyddyd byr ar y pynciau hyn. Gobeithiwn rannu'r rhain, fel y bydd yn briodol, â Llywodraeth EM a Llywodraeth a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda golwg ar gychwyn deialog rhwng eglwysi a llywodraeth ar faterion y tybiwn ni fydd yn greiddiol i Gymru yn y blynyddoedd nesaf. Byddwn yn barod ar unrhyw adeg ym mhroses ymgynghorol y Pwyllgor i ehangu ar y pryderon sydd gennym, naill ai wyneb yn wyneb neu drwy dystiolaeth ysgrifenedig bellach.

A allwch chi roi enghreifftiau o lle y gallai dull arfaethedig y DU i drosglwyddo'r acquis communautaire (y corff o gyfraith Ewropeaidd), drwy Bil y Diddymu Mawr, i gyfraith ddomestig gael goblygiadau penodol i Gymru?

15. Mae nifer o eglwysi Cytûn wedi cefnogi datganoli i Gymru ers cenedlaethau. Mae eraill wedi cadw'n niwtral ar egwyddor y mater, tra'n awyddus i weld trefniadau llywodraethol Cymru yn rhai sydd gyda hygrededd, yn atebol i'r boblogaeth yn gyffredinol, ac yn gwasanaethu'r gymuned gyfan, gyda gofal arbennig dros y tlawd a'r anghenus.
16. Rydym felly wedi mynegi yn ein hymatebion i ymgynghoriadau parthed Bil Cymru 2016-17[3] ein gofid y byddai setliad sy'n cymhlethu ein trefn lywodraethol yn peryglu pellhau pobl gyffredin oddi wrth y sawl sy'n eu llywodraethu, ac felly gwanhau'r cwlwm sy'n ein clymu fel cymdeithas a chenedl. Mae'r un gofid yn berthnasol i'r newidiadau a ddaw i drefn llywodraethu Cymru wrth ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Yn wir, mae llawer o'r farn fod canlyniad y refferendwm ei hun yn arwydd bo pellhau o'r fath eisoes ar gerdded (gweler paragraff 13.1.2 uchod). Os felly, mae'n hanfodol bod y ddwy Lywodraeth yn cymryd pob cam posibl i gau'r bwlch sydd yn ymagor o'n blaenau.
17. Credwn felly fod angen i Fil y Diddymu Mawr sicrhau bod cyfreithiau Ewropeaidd yn y meysydd sydd fel arall wedi eu datganoli yn dod yn gyfrifoldeb uniongyrchol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, tra bod cyfreithiau yn y meysydd a gedwir yn ôl yn dod yn gyfrifoldeb (o ran Cymru) i Senedd San Steffan. Dylai Bil y Diddymu Mawr parchu'r ffin datganoli ar adeg y deddfu hwnnw. Bydd hyn yn sicrhau cymaint o gysondeb ac eglurder i'r cyhoedd ag sy'n bosibl.
18. Wedi dweud hynny, credwn hefyd fod angen cyllido'n llawn pob cyfrifoldeb ychwanegol a ddaw i Gymru yn sgîl y newidiadau hyn. Nid yw Fformiwla Barnett yn addas i'r diben yma, achos nid at y math yma o sefyllfa y cafodd ei ddyfeisio. Mae'r arian a ddaw o'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer amaethyddiaeth (trwy'r Polisi Amaeth Cyffredin) ac ar gyfer datblygu economaidd (trwy Amcan Un a chynlluniau eraill a thrwy ba bynnag gynlluniau fyddai yn eu holynu yn 2020) wedi eu seilio ar anghenion Cymru, ac nid ar nifer y boblogaeth, fel gyda Barnett. Gan fod Cymru yn wlad gyda llawer o amaethyddiaeth, a chydag anghenion economaidd dwys, credwn y dylai'r trefniadau cyllido i'r meysydd hyn ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd adlewyrchu'r ffyrdd presennol o fesur yr anghenion hynny.
19. Yn wyneb yr egwyddorion yr ydym wedi eu rhestru ym mharagraff 9 uchod, fe gredwn y dylai'r cyfyngiadau ar rymoedd deddfu'r Cynulliad a phwerau gweinyddol Gweinidogion Cymru o ran Confensiwn Hawliau Dynol Ewrop barhau yn eu lle. Mae sefydlu ein Senedd genedlaethol ar sail gadarn o hawliau dynol wedi bod yn fendith i Gymru er 1999, ac ni ddymunem weld unrhyw dynnu'n ôl ar yr egwyddorion hynny wrth ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.
20. Mae Deddfau Cymru fel y maent yn sefyll hefyd yn cyfyngu gallu'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru i weithredu yn groes i gyfraith yr Undeb Ewropeaidd. Cydnabyddwn y bydd angen newid y cyfyngiad hwn wrth ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Ond credwn hefyd y dylid sicrhau fod gan y Cynulliad yr hawl i gyfyngu ei hun yn wirfoddol yn y ffordd hon, mewn rhai meysydd polisi neu'r cyfan, os yw'n dymuno cadw safonau a deddfau Cymru yn gydnaws â Chyfraith Ewropeaidd, er mwyn parhau â'r cysylltiadau masnachol a diwylliannol agos sydd gennym ar hyn o bryd. Dylai'r dewis, y naill ffordd neu'r llall, fod yn fater i gynrychiolwyr etholedig pobl Cymru yn hytrach nag yn cael ei benderfynu trwy bleidlais yn San Steffan.
21. Yn wyneb ein consyrn arbennig am amaethyddiaeth a'r amgylchedd (paragraff 11 uchod) – yr hyn a alwem yn gread Duw – rydym yn bryderus iawn am y posibilrwydd a fynegwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amaeth a'r Amgylchedd o flaen Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol Tŷ'r Cyffredin ar 25 Hydref 2016[4] na fydd yr holl warchodaeth amgylcheddol bresennol yn cael ei throsglwyddo i'r Deyrnas Unedig wrth ddeddfu. Mae rhan fwyaf y rhan hon o'r acquis communautaire mewn meysydd datganoledig, a byddem yn awyddus iawn i weld trosglwyddo'r cyfan i ofal Cynulliad Cenedlaethol Cymru, hyd yn oed os yw Llywodraeth EM, wrth ddeddfu dros Loegr, yn dewis llwybr gwahanol.

Dylid cyfeirio ymholiadau at: Parch. Gethin Rhys, Swyddog Polisi, Cytûn, 58 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3AT. Ffôn: 029 2046 4378. E-bost: gethin@cytun.cymru

[3] Cyhoeddwyd yn Llyfryn Tystiolaeth ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, tt 29-33
[4] http://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/environmental-audit-committee/news-parliament-2015/future-natural-environment-ev4-16-17/